

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	17 TACHWEDD 2020
PWNC	ABSENOLDEB MABWYSIADU
PWPRAS	Trafod yr ymgynghoriad i'r newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i aelodau'r pwyllgor: <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

1. Bu i Lywodraeth Cymru agor ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr ar y 3ydd o Dachwedd, 2020. Mae'r ymgynghoriad yn agored am 8 wythnos yn unig, gydag ymatebion i'w cyflwyno erbyn 29ain o Ragfyr, 2020.
2. Ymgynghorir ar y newidiadau i absenoldeb mabwysiadu i Gynghorwyr o 2 wythnos i 26 wythnos. Gellir gweld yr ymgynghoriad yn llawn trwy'r ddolen isod.

<https://llyw.cymru/absenoldeb-mabwysiadu-i-gynghorwyr-awdurdodau-lleol>
3. Mae pob aelod wedi derbyn copi o'r ymgynghoriad trwy ebost fel y gallant ddewis ymateb yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
4. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.